**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Holl Aelodau'r Cynulliad

16 Awst 2016

Annwyl Aelod Cynulliad,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r newyddion diweddaraf i chi ynghylch yr A470 yn Nolgellau a'n hymrwymiad i newid dwy o'r cyffyrdd presennol, yr A470/A494 a'r A470/A493, gyda chylchfannau.

Mae cylchfan yr A470/A494 bellach wedi ei adeiladu ac ar agor i draffig. Mae'r cynllun ar gyfer cyffordd yr A470/A493 yn mynd rhagddo a byddwn yn gorffen ei adeiladu yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Fodd bynnag, mae'r gyffordd hon ychydig yn fwy cymhleth gan bod cyffordd groesgam hefyd i Goleg Meirion Dwyfor ar ochr arall y ffordd i'r A493. Heb gymeryd tir ychwanegol, nid yw'n bosib i ddod â'r gyffordd hon at y gylchfan newydd yn uniongyrchol.

Gan nad oes hanes o ddamweiniau yn y gyffordd hon, ac oherwydd y bydd prynu tir a materion ecolegol yn golygu y byddai oedi o oddeutu dwy flynedd, byddwn yn mynd ymlaen i gynllunio'r gylchfan ar gyffordd yr A470/A493 gyda dim ond rhai newidiadau i gyffordd Coleg Meirion Dwyfor.

Bydd fy swyddogion yn parhau i fonitro cyffordd Coleg Meirion Dwyfor. Efallai y bydd opsiwn i brynu tir i gysylltu'r ffordd yn uniongyrchol â'r gylchfan newydd, pe byddai angen yn y dyfodol.

Yn gywir,

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.